



**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Cyfarfod Cyhoeddus, 5 Rhagfyr 2024, 10:30
Cynhaliwyd yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd)
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol, (Prifysgol)
Clare Jenkins	(CJ)	Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, (gadawodd am 11:22)
Yn Bresennol:		
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
Julie Bishop	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 3.3, gadawodd am 11:46)
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol (Ansawdd a Nyrsio)
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Alisha Davies	(AD)	Bennaeth yr Is-adran Ymchwil a Gwerthuso
Helen Erswell	(HE)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.3, gadawodd am 11:46)
Tom Fowler	(TF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (gadawodd am 12:05)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio (cyrhaeddodd am 12:19, gadawodd am 12:35)
Rick Lines	(RL)	Pennaeth Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau (ar gyfer eitem 3.3, gadawodd am 11:46)
Kirsty Little	(KL)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.2)
Rebecca Masters	(RM)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.4)
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Lles
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig



Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ymddiheuriadau		
Dim		
Ysgrifenyddiaeth		
Ffion Lloyd	(FL)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 10:30</i>		
KRIC 1/2024.09.05 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau		
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.		
Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ar 4 Mawrth 2024.		
KRIC 2/2024.09.05 Datganiadau o Fuddiannau		
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.		
KRIC 3/2024.09.05 Eitemau ar gyfer Sicrwydd		
KRIC 3.1/2024.09.05 Archwiliad Dwfn: Dangosyddion ar gyfer Iechyd Meddwl – yn gysylltiedig â Blaenoriaeth Strategol ar Iechyd a Lles Meddyliol		
Cyflwynodd JM Archwiliad Dwfn i waith a wnaed ar flaenoriaeth strategol dau yn ymwneud â dangosyddion iechyd meddwl a lles.		
Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol:		
Blaenoriaeth 1: Penderfyniadau Ehangach megis incwm, cyflogaeth, tai a'r amgylchedd. Pwysleisiodd JM berthnasedd y gwaith sy'n cael ei wneud ar dlodi plant a'r goblygiadau ar gorbryder.		
Blaenoriaeth 2: Penderfyniadau Seicogymdeithasol Lles Meddyliol a Chymdeithasol: Cydnabu JM y byddai angen datblygu'r strategaeth ymhellach i fod yn fwy cynhwysfawr, ac y byddai'r Flaenoriaeth hon yn cael ei hystyried ar wahân.		
Blaenoriaeth 3: Penderfyniadau Ymddygiadol – roedd y rhain yn cynnwys diet, gweithgaredd corfforol ac ysmegu: Dywedodd JM fod bwlch mawr yn y trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud a sut roedd yn cysylltu â / yn cyfrannu at iechyd meddwl da. Roedd cynllun ar y gweill i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd. Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 2 fu'r meysydd ffocws a'r pryder mwyaf i'r Pwyllgor hwn o ran eu ffrwd waith, fodd bynnag, byddai angen mynd i'r afael â'r holl Flaenoriaethau.		
Cydnabuwyd hefyd fod nifer o ddangosyddion lles cymdeithasol i'w hystyried, a dywedodd JM fod gwaith yn ymwneud ag iechyd meddwl ar y gweill o fewn Cyfarwyddiaethau ac Is-adrannau eraill yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn amlygu ehangder a phwysigrwydd y gwaith ar iechyd meddwl.		
Rhoddodd JB gefndir i'r Pwyllgor am ddatblygiad y matrices a gyflwynwyd. Roedd model penderfyniadau wedi'i fabwysiadu a oedd yn diffinio lles meddyliol a		



chymdeithasol fel sail i iechyd y boblogaeth, ac yn diffinio iechyd yn nhermau pob cyflwr iechyd, nid iechyd meddwl yn unig. Roedd y matrices yn y cyflwyniad yn dangos graddau Blaenoriaeth 2 a hefyd yn dangos y croes-gysylltiadau ag Ymddygiad Iechyd a Chanlyniadau Iechyd.

O ran y Strategaeth Hirdymor, disgrifiodd JB y pedwar canlyniad yr oedd y Sefydliad yn gweithio tuag atynt a'r dangosyddion lefel system a ddefnyddiwyd i gyfrannu at y canlyniadau (manylir ar y rhain ar y sleid atodol). Teimlwyd ei bod yn bwysig edrych ar y bylchau anghydraddoldebau sy'n bodoli yn y boblogaeth wrth wneud y gwaith hwn. Roedd ffynonellau data ychwanegol wedi'u cynnwys yn y canlyniadau hyn ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, o'r Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, ond mewn rhai meysydd nid oedd y dyddiad i fesur effaith wedi'i fesur o hyd, er enghraifft y Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf.

Dywedodd JB wrth y Pwyllgor fod gwaith i adrodd ar drais a cham-drin yn mynd rhagddo, ond bod ffactorau gwahaniaethu a cham-drin wedi'u darganfod ac er bod rhywfaint o wybodaeth o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr wedi nodi data defnyddiol, nid data Cymru ydoedd. Roedd cael eich bwlio a'r cysylltiad ag iechyd meddwl hefyd wedi'u nodi fel ffocws ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Diolchodd SG i JM a JB am y cyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau gan y Pwyllgor.

Cydnabu'r Pwyllgor y gwaith cymhleth sy'n cael ei wneud yn y maes hwn a chydabu fod y matrices yn dal i gael ei ddatblygu. Awgrymodd SG y byddai mwy o ffocws mewn trafodaethau yn y dyfodol pan fyddai'r matrices terfynol ar gael.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd plant sy'n cyrraedd eu cerrig milltir wedi cael eu cofnodi mewn gwledydd eraill. Dywedodd JB wrth y Pwyllgor fod mesurau yn bodoli, er enghraifft Parodrwydd ar gyfer Ysgol yn Lloegr, ond nad oedd data cyfatebol ar gael yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn ddiweddar i'r Sefydliad edrych ar ddilysu mesurau asesu yn y maes.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd nawdd economaidd, amgylcheddol, ariannol a chymdeithasol yn cyd-fynd â'r gwaith hwn. Dywedodd JB fod hyn o fewn gofod penderfynyddion ehangach y gwaith.

Teimlai'r Pwyllgor fod cyfleoedd i fesur cerrig milltir wedi'u nodi ar y matrices a oedd, ynghyd ag atebion cydnabyddedig i lenwi'r bylchau hynny, yn pwysleisio pwysigrwydd y gwaith ac y dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Soniodd JM am y drafodaeth a nododd fod y Pwyllgor wedi cytuno bod pryderon iechyd meddwl yn cael eu hadlewyrchu ar draws holl flaenoriaethau'r Sefydliad a dangosodd ehangder y trosolwg a maint y gwaith sydd ei angen yn awr i fynd i'r afael â phob un o'r pryderon a'r bylchau yn y data a nodwyd.

Soniodd JB am y gwaith ymgynghori er mwyn i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024. Byddai hyn yn nodi camau'r Rhaglen Hapus yn y dyfodol. Nododd y Pwyllgor yn ffurfiol fod y Sefydliad yn cefnogi datblygu a defnydd Dangosyddion Cenedlaethol yn y gwaith hwn.



Hysbysodd JB y Pwyllgor hefyd am waith diweddar a oedd wedi dechrau mewn cydweithrediad â Chanolfan Wolfson i astudio problemau iechyd meddwl pobl ifanc. Roedd y cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel newid mawr yn yr amgylchedd a fyddai'n cyflwyno problemau cymhleth a heriol yn y dyfodol. Gofynnodd y Pwyllgor i ddata o wledydd eraill gael ei gymharu â'r data a arsylwyd yng Nghymru i sicrhau bod y wybodaeth a gofnodwyd yn cael ei gosod mewn cyd-destun cywir.

Rhoddodd IB wybod i'r Pwyllgor am ddatblygiad y system Amser Real ar gyfer Adrodd ar Wyliadwriaeth Achos Tybiedig o Hunanladdiad a oedd wedi'i datblygu ers mis Ebrill 2022. Mae'r adroddiadau misol yn nodi patrymau yn y data a gall datblygiad diweddar nodi ardaloedd lleol yn gyflym a nodi clystyrau a phatrymau a all hwyluso ymchwiliadau lleol. Bwriedir cyhoeddi ail adroddiad blynyddol yn yr wythnosau nesaf.

Roedd AD wedi gweithio i nodi bylchau mewn gwybodaeth data i gefnogi gwaith Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu gwell gwybodaeth am wasanaethau iechyd meddwl. Roedd y data wedi dod o ddata a rhannwyd gyda'r Sefydliad gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, a gafwyd o Fanc Data SAIL, ac sy'n deillio o astudiaeth mewnwelediad ansoddol i brofiad plant a phobl ifanc o gael mynediad at gymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl. Yr oedd tair ffrwd i'r gwaith hwn (i gyd ar gyfer 11-14 oed yng Nghymru):

- Deall y cysylltiad rhwng lles meddyliol ac iechyd meddwl
- Atal argyfwng a'r llwybrau i ofal
- Archwilio profiad bywyd a chael mynediad at gymorth ar draws y GIG, y teulu a sefydliadau trydydd sector

Byddai canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio i lywio sut y byddai'r gwasanaethau a ddarperir yn cael eu gwella ar gyfer y dyfodol. Roedd data o wyliadwriaeth hunanladdiad yn cael ei asesu gyda'r bwriad o'i gysylltu â'r data o'r tair ffrwd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwaith ataliol.

Roedd yna brosiect yn archwilio profiad bywyd a chael mynediad at gefnogaeth ar draws y GIG, teuluoedd a sefydliadau trydydd sector. Roedd y data ar gyfer y gwaith cyfweld hwn ar gyfer pobl ifanc 16 i 25 oed wedi'i gasglu ac yn cael ei ddadansoddi. Mae'r arwyddion cychwynnol yn dangos pwysigrwydd sefydliadau'r sector gwirfoddol yn gweithio ochr yn ochr â'r GIG a pha mor bwysig oedd y gwaith hwn i sectorau difreintiedig o'r boblogaeth. Byddai adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd cipio niwroamrywiaeth wedi'i gynnwys yn y data Iechyd Meddwl a gyflwynwyd. Dywedodd AD wrth y Pwyllgor fod y data wedi'i gasglu mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol adroddiadau a bod ei thîm ar hyn o bryd yn prosesu'r data i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf cywir o gyflwyno'r wybodaeth niwroamrywiaeth.

Holodd y Pwyllgor ynghylch Ymgysylltu Clinigol a dywedwyd wrthynt fod grŵp rhanddeiliaid allanol wedi'i sefydlu. Cyfarfu'r grŵp yn yr haf ac roedd y tîm yn y broses o ailgysylltu â'r grŵp cyn cyfarfod am yr eildro.



Holodd y Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd o gyfleoedd pellach i wneud cais am adnoddau ymchwil. Dywedodd AD wrth y Pwyllgor fod trafodaethau parhaus yn parhau gyda Phrifysgol Caerdydd gyda'r bwriad o ddatblygu partneriaeth strategol

Dywedodd IB wrth y Pwyllgor fod y Sefydliad yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Hunan-niwed a Hunanladdiad i ddefnyddio'r gwaith gwyliadwriaeth achosion tybiedig o hunanladdiad sy'n cael ei ddatblygu.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y data rhagfynegi a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil yn gallu edrych ar y gwahaniaethau demograffig y gwyddys eu bod yn bodoli ledled Cymru. Cytunodd AD i ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd hwn.

Nododd y Pwyllgor y gwaith parhaus wrth i fapiau llwybr gael eu datblygu a chafodd **sicrwydd** bod y tîm yn defnyddio'r dull cywir i nodi'r bylchau yn y data.

KRIC 3.2/2024.09.05

Canlyniadau 2024 Arolwg Effaith Monitro ICC

Cyflwynodd IB ganlyniadau Arolwg Effaith Monitro Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y canlyniadau wedi nodi ffyrdd o wella pa mor effeithiol y gallai'r data fod a sut i ymgysylltu'n well â defnyddwyr data, gwybodaeth a chynhyrchion dadansoddol y Sefydliad.

Dywedodd KL fod y canlyniadau'n seiliedig ar ddata arolwg cyfyngedig a ddychwelwyd ond bod cymharu data â'r flwyddyn flaenorol dal yn ddefnyddiol. Roedd yr arolwg yn cwmpasu allbynnau gwybodaeth o ymchwil, adroddiadau gwerthuso seiliedig ar dystiolaeth a gynhyrchwyd ar draws y Sefydliad (<https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-committees/committee-meetings/knowledge-research-and-information-committee/202425/5-december-2024/papers-5-december-2024/3-2b-kric-2024-12-05-impact-survey-2024/>).

Roedd dosbarthiad yr arolwg yn adlewyrchu rhyngweithio defnyddwyr gydag ystâd y we. Roedd bron i 300 o ddefnyddwyr wedi dechrau'r arolwg ond cwblhaodd tua 100 o ddefnyddwyr y cwestiwn olaf er mwyn cyflwyno'r arolwg. Roedd y tîm wedi bod yn ymwybodol o'r niferoedd bach a ddeilliodd o gyfraddau cwblhau mor isel; fodd bynnag roedd yr holl ddata wedi'i gynnwys yn y canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad.

Yn bwysig, mae'r canlyniadau'n dangos bod lefelau enw da ac ymddiriedaeth yn y Sefydliadau yn dda iawn ac yn sefydlog o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Dywedodd 92% o ddefnyddwyr y byddent yn defnyddio ein ffynonellau data eto o'i gymharu â 93% y llynedd. Dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn ei chael hi'n haws dod o hyd i'n cynnyrch o'i gymharu â'r llynedd a dywedodd cynnydd mawr tebyg (i fyny o lai na 60% i dros 70%) bod y cynhyrchion yn ddealladwy iddynt.

Cofnodwyd gostyngiad o 10% yn y defnyddwyr a ddywedodd fod modd gweithredu ar gynhyrchion y Sefydliad. Roedd hyn yn rhywbeth y byddai ei thîm am ymchwilio ymhellach iddo. Roedd sylwadau a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr yn nodi nad oedd y negeseuon o'u rhyngweithiadau bob amser yn glir ac y byddai ymchwil i hyn yn digwydd.



Nodwyd y gostyngiad yn nifer y defnyddwyr a gytunodd fod cynhyrchion yn bodloni safonau hygyrchedd i 41% ac roedd camau sylweddol ar y gweill i ddeall y rhesymau dros y gostyngiad hwn mewn boddhad defnyddwyr.

Arhosodd canran yr ymatebwyr a raddiodd eu profiad gyda'r Sefydliad yn sefydlog tua 66-67% ond nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn ganran arbennig o dda. Gostyngodd nifer yr ymatebwyr a oedd yn eithaf bodlon â datblygiad cynnyrch o 75% i 48%. Er y gallai'r niferoedd bach dan sylw fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn mewn boddhad, byddai'n cael ei ystyried ymhellach. Gwelwyd gostyngiad tebyg yng nghanran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r cynnyrch terfynol wedi bod yn rhan o'r broses, a hynny o 90 i 62%. Roedd hyn yn dangos cysondeb gyda'r categori blaenorol ond yn dibynnu ar brofiadau unigol ac fe nodwyd hyn yn ofalus.

Roedd peth adborth wedi'i dderbyn a oedd yn nodi na chafwyd adborth cadarnhaol a bod ymgysylltu'n hwyr ac yn symbolaidd, byddai hyn yn cael ei ymchwilio'n drylwyr.

Cafwyd crynodeb gan KL o'r gwaith parhaus, a oedd yn cynnwys trawsnewid y we a'r gwelliant hirdymor, fel gwella gwelededd y Sefydliad ac eglurder, pwrpas a hygyrchedd y Sefydliad i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Roedd gwaith Dylunio Cynnwys a Safon Cyhoeddi yn parhau i wella effaith holl gyhoeddiadau'r Sefydliad.

Roedd angen gwneud rhagor o waith i ddeall y gostyngiad mewn cyfraddau bodlonrwydd ac i sicrhau bod staff yn defnyddio'r pecynnau cymorth at ddibenion ymgysylltu â staff y cawsant eu cynllunio ar eu cyfer.

Byddai'r Cyfarwyddwyr Ymchwil, Data a Digidol yn cynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid craidd er mwyn helpu'r rhanddeiliaid i gyfrannu at ddatblygu amserlen blaenoriaethu.

Gofynnodd y Pwyllgor i IB roi sylwadau ar y canfyddiadau, a dywedodd mai'r brif flaenoriaeth oedd ailgynllunio'r wefan i gyfleu'r negeseuon mewn fformat symlach, a oedd yn golygu cyrraedd y pwynt yn gyflymach ac yn fyrrach a bwrw ymlaen â'r gwaith hwn i wella safonau cyhoeddi er mwyn sicrhau cysondeb ac effaith. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynllun i wella safonau ac awgrymodd y dylid datblygu llinellau amser a chamau gweithredu i weithio tuag at gynllun y cytunwyd arno.

Cytunodd IB â'r sylwadau a dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'n trafod amserlen gyda'r Gweithredwyr ym mis Ionawr ac ar ôl hynny byddai'n dosbarthu amserlen i aelodau'r Pwyllgor.

Cam Gweithredu: IB

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Sefydliad yn gweld ymatebion i'r arolwg gan yr holl randdeiliaid yr oeddent yn disgwyl iddynt ymateb. Dywedodd KL wrth y Pwyllgor eu bod wedi casglu gwybodaeth gan Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r cyhoedd yn gyffredinol, ac er bod nifer yr ymatebwyr wedi newid ers y flwyddyn flaenorol, roedd yn ymddangos bod y canlyniadau'n gyson. Awgrymodd y byddai gofyn cwestiynau am



gynnyrch penodol yn ddefnyddiol, ond, oherwydd bod nifer y cynhyrchion yn rhy fawr, byddai'n anodd asesu cynhyrchion unigol.

Awgrymodd IB y gellid cyfuno data dros nifer o flynyddoedd i nodi gwahaniaeth rhwng grwpiau cynulleidfa.

Diolchodd SG i KL am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod barn rhanddeiliaid ar ddata, dadansoddi a chynhyrchion ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu ceisio, eu hystyried a bod gwelliannau i'n heffaith yn cael eu dilyn yn barhaus.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i ganfyddiadau'r adroddiad a'r camau a awgrymwyd.

KRIC 3.3/2024.09.05

Diweddariad ar Ddibyniaeth (gan gynnwys alcohol, gamblo a chyffuriau) (Blaenoriaeth 3, Hyrwyddo Ymddygiadau Iach)

Fe wnaeth JM gyflwyno JB, RL ac HE i gyflwyno'r diweddariad ar Hyrwyddo Ymddygiad Iach o ran ymddygiadau caethiwus, ac mae'r cyflwyniad yn ddiweddariad i'r cyflwyniad a dderbyniwyd yn y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2023.

Amlygodd ymchwil gwmpas traws-Sefydliadol y gwaith ac roedd yn cynnwys pedair Cyfarwyddiaeth: Diogelu Iechyd a Sgrinio; Iechyd a Lles; Polisi ac Iechyd Rhyngwladol; ac Ymchwil, Data a Digidol. Roedd asesiad ar y gweill ac roedd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd a phartneriaid system eraill wedi'u cymryd ymlaen i gydweithio â'r gwaith. Parhaodd y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar feysydd adolygu polisi a gweithdrefnau a oedd yn cynnwys strategaeth cyffuriau ac alcohol genedlaethol newydd i Gymru.

Eglurodd JB y dull traws-Sefydliadol a fabwysiadwyd i egluro rolau o fewn y Sefydliad ar gyfer y gwaith hwn. Roedd yr asesiad wedi rhoi gweledigaeth Cymru gyfan o'r gwahanol sylweddau a ddefnyddiwyd, y niwed y maent yn ei achosi, a'r effaith ar deuluoedd a chymunedau. Dywedodd JB wrth y Pwyllgor nad oedd gan y Sefydliad unrhyw gynllun na strategaeth gyfredol yn y maes hwn, ond bod grŵp traws-gyfarwyddiaeth wedi'i gynnull i hysbysu a chydlynu gwaith mewnol. Roedd hyn yn cynnwys yr asesiad anghenion a chyngor/cymorth i wasanaethau lleol. Byddai'r dystiolaeth a gasglwyd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac adolygu ei strategaeth, ochr yn ochr â chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor mai'r dull cydweithredol a fabwysiadwyd oedd y dull gorau ar gyfer y gwaith hwn a gofynnodd a oedd profiad bywyd y bobl a oedd yn gysylltiedig neu yr effeithir arnynt yn uniongyrchol wedi'i gynnwys yn y dull gweithredu. Dywedodd JM wrth y Pwyllgor eu bod yn bwriadu cynnwys hynny yn y gwaith.

Gofynnodd y Pwyllgor a ddylid ymgorffori amserlen yn y gwaith i egluro a oedd y gwaith yn cael ei ystyried yn waith hirdymor neu yn waith ar gyfer y tymor byrrach ac a fyddai'n helpu gwelededd i weld y gwaith yn ei gyfanrwydd.



Darparodd JM amserlen i'r Pwyllgor ar gyfer y gwaith:

- Asesiad o Anghenion yn dechrau ym mis Mawrth 2025.
- Asesiad o Anghenion gan Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd yn 2025/26.
- Adolygu'r Strategaeth Genedlaethol (amserlen Llywodraeth Cymru).
- Adolygu Canllawiau Adrannau Byrddau Cynllunio (amserlen Llywodraeth Cymru).
- Gweithio gyda Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd i osod camau gweithredu ar gyfer lleihau niwed.

Diolchodd y Pwyllgor i JM ac awgrymodd ddeialog gryfach gyda Llywodraeth Cymru pan fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod gwaith wedi parhau i gryfhau ac adeiladu ar y defnydd o ddata, tystiolaeth ac ymchwil i lywio camau gweithredu Iechyd y Cyhoedd i gynyddu effaith ymddygiadau iach ar y boblogaeth, iechyd a llesiant mewn perthynas â'n Strategaeth Hirdymor.

Nododd y Pwyllgor y gwaith arfaethedig.

KRIC 3.4/2024.09.05

Ymchwil a Monitro Newid Hinsawdd

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda ymchwil ar Newid Hinsawdd gan SA ac RM.

Yn 2023, ystyriodd y Pwyllgor Archwiliad Dwfn yn y maes hwn a oedd yn dangos y sefyllfa sylfaenol, sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen a oedd yn darparu cyfeiriad strategol a throsolwg. Rhoddodd RM ddiweddiariad i'r Pwyllgor ar waith yn dilyn y sefyllfa sylfaenol.

Roedd y gwaith wedi canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- Datblygu ein hagenda ymchwil
- Cydweithio â phartneriaid
- Cynyddu capasiti
- Gwylidwriaeth

Roedd yn hanfodol sicrhau bod Cymru'n derbyn swm cymesur o arian allanol a oedd ar gael, tra'n nodi bod gan Gymru dirwedd ôl-ddiwydiannol unigryw sy'n achosi pryder amgylcheddol. Byddai'r agenda ymchwil yn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r effeithiau ar iechyd mewn perthynas â diogelwch tomenni glo ac olion ôl-ddiwydiannol eraill.

Gydag arfordir hir, mae Cymru'n gartref i lawer o gymunedau arfordirol sy'n agored i lifogydd. Roedd yn bwysig nodi meysydd ymchwil a oedd yn nodi effeithiau ar iechyd y cyhoedd yn y cymunedau hynny.

Arweiniodd cais diweddar am gyllid gan Brifysgol Caerwysg ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU at lansio'r Ganolfan Ymchwil Hinsawdd. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio ochr yn ochr â'r Ganolfan ac yn nodi ymchwil y Ganolfan hon.



Roedd y Sefydliad wedi gweithio'n strategol gyda Sefydliadau partner yn y pedair gwlad, ac mewn cydweithrediad â Iechyd Cyhoeddus Yr Alban mae rhai heriau unigryw wedi'u nodi sy'n cyd-fynd yn agos yn y ddwy wlad.

Roedd cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu ac roedd recriwtio wedi dechrau ar gyfer cydlynedd ymchwil a fyddai'n canolbwyntio ar gydweithio â phartneriaid ariannu allanol a datblygu gwaith o fewn rhwydwaith academiaidd Cymru.

Nododd RM y gwaith a wnaed i ddatblygu system gwyliadwriaeth iechyd y cyhoedd i fonitro newid hinsawdd, a oedd yn cynnwys is-grŵp gwyliadwriaeth newid hinsawdd a fyddai'n caniatáu ar gyfer cydgysylltu a gweithredu ehangach gyda phartneriaid rhyngwladol.

Diolchodd SG i RM am y cyflwyniad a gofynnodd a fyddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn paratoi cynigion i ymchwilio i ymchwil newid hinsawdd ôl-ddiwydiannol. Cadarnhaodd RM y nod i weithio gyda Iechyd Cyhoeddus Yr Alban am fod ganddynt dirwedd ôl-ddiwydiannol debyg ar gyfer cyfleoedd ymchwil.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a fyddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys pobl ifanc mewn trafodaethau ynghylch gwaith ar newid hinsawdd. Cadarnhaodd RM fod gwaith yn cael ei wneud gyda chontractwr allanol i ymchwilio i negeseuon ynghylch newid hinsawdd, ac y byddai hyn yn cysylltu â gwaith ar iechyd meddwl i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gorbryder hinsawdd.

Diolchodd SG i RM ac SA am y diweddariad.

KRIC 3.5/2024.09.05

Cynnydd ar Weithredu'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso

Rhoddodd IB ac EDL ddiweddariad 6 mis ar y Cynnydd ar Weithredu'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.

Nododd IB fod archwiliad wedi'i gynnal ar y cynnydd gweithredu, a oedd yn rhoi sicrwydd ar y gwaith ac yn cynnwys camau gweithredu â blaenoriaeth ganolig ac isel yn unig i wella llyf a chofnodi data.

Nododd EDL y cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan y grŵp goruchwylio Ymchwil a Gwerthuso, a rhoddodd ddiweddariadau ar y pedwar maes a nodwyd:

- Roedd y camau a gymerwyd i gryfhau safonau ymchwil a gwerthuso yn cynnwys:
 - Adborth archwilio i sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn olrhain effaith a phroses o amgylch ceisiadau ymchwil allanol. Roedd traciwr ymchwil byw yn cael ei ddatblygu a fyddai'n monitro'r holl ymchwil ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, a byddai'n cael ei anfon at benaethiaid gwasanaeth bob chwarter er mwyn cael diweddariadau.
 - Datblygu grŵp adolygu cymheiriaid traws-sefydliadol i fonitro proses unrhyw gynigion allanol yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â nhw.



- Datblygu safonau arfer gorau, a oedd yn cynnwys Cymuned Ymarfer Werthuso o 400 o aelodau sy'n cyfarfod bob chwarter i rannu enghreifftiau o arfer gorau a chryfhau gwerthusiadau.
- Gallu ar gyfer ymchwil a gwerthuso:
 - Ymgwymerwyd â gwaith gyda charfan fechan o ymchwilwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Ddyfarniadau Datblygiad Personol Ymchwil Gofal Iechyd Cymru ym mis Hydref/Rhagfyr 2024 er mwyn datblygu eu meysydd arbenigedd ymchwil.
 - Roedd papur yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â Phrifysgol Bangor i edrych ar sut i ddatblygu cyfleoedd Doethuriaeth rhwng eu hysgol Gwyddorau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
 - Roedd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gyda Phrifysgol Abertawe i ganiatáu i ddadansoddwyr data Iechyd Cyhoeddus Cymru gael mynediad i gronfa ddata dichonoldeb Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw er mwyn cael data ymchwil ychwanegol.
- Partneriaethau:
 - Gwaith wedi'i wneud i gysylltu â Rhwydwaith Arloesedd Wells er mwyn dod â'r holl Sefydliadau Addysg Uwch at ei gilydd i ddatblygu strategaeth yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus academiaidd.
 - Roedd pedwar gweithdy maes blaenoriaeth wedi'u cynnal gyda Phrifysgol Caerdydd, a dau arall i'w cynnal yn 2025.
 - Roedd Prifysgol Caerdydd wedi bod mewn cysylltiad ynghylch grant ymchwil penderfynyddion ehangach y DU.
- Ymgysylltu a Chyfathrebu:
 - Gwaith a wnaed gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu cynnwys ac yn ymgysylltu drwy gydol y broses ymchwil.
 - Yn gysylltiedig â'r Tîm Cyfathrebu i sicrhau bod ymchwil a gwerthuso yn bresennol yn natblygiad y wefan er mwyn caniatáu ar gyfer lledaenu ymchwil yn well.

Holodd y Pwyllgor a ellid agor y Gymuned Ymarfer ar Werthuso i arbenigwyr o'r tu allan i Iechyd Cyhoeddus Cymru gan y byddai hyn yn helpu i ddod â gwybodaeth ac adborth ychwanegol i mewn. Cadarnhaodd IB ac EDL fod siaradwyr allanol yn cael eu gwahodd ar hyn o bryd ac yn cytuno ar fanteision aelodau allanol, ond nodwyd y byddai angen cynnydd pellach yn y broses werthuso mewnol cyn hyn.

Diolchodd SG i EDL am y diweddariad, a **chwyrodd y Pwyllgor sicrwydd** ynghylch y cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso sefydliadol.

KRIC 3.6/2024.09.05

Adroddiad System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol (CSIMS).

Rhoddodd SS drosolwg o'r gwaith a wnaed i adolygu digwyddiadau a adroddwyd gan y CSIMS, gan ganolbwyntio ar dor diogelwch data, cywirdeb a dibynadwyedd data, a gwelliannau i'w gwneud i'r system yn y dyfodol. Nododd SS fod blaenoriaethau cystadleuol wedi achosi oedi gyda'r adroddiad, ac y byddai'r adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth.

Cam Gweithredu: SS



KRIC 3.7/2024.12.05	Rheoli Risg
KRIC 3.7.1/2024.12.05	Cofrestr Risgiau Strategol
<p>Cyflwynodd SS yr eitem a oedd yn rhoi trosolwg o Risgiau Strategol 1 a 2 sy'n dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor.</p> <p>Nododd SS y sesiwn Datblygu Bwrdd a drefnwyd ar gyfer Chwefror 2025 a fyddai'n edrych ar barodrwydd i dderbyn risg o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a bod hyfforddiant rheoli risg lefel dau yn cael ei gynnal gyda'r rhai sy'n trin risg.</p> <p>Nododd DG na fu unrhyw newid i'r sgorau risg presennol ers y cyfnod adrodd diwethaf, ond bod cynnydd wedi'i wneud gyda'r cynlluniau gweithredu a'r rheolaethau ar gyfer y risgiau hyn. Rhagorwyd ar derfynau amser y cynllun gweithredu, ond cyflwynwyd y rhain i'r Bwrdd ym mis Tachwedd ac roedd terfynau amser diwygiedig wedi'u cymeradwyo.</p> <p>Nododd DG y gofynnwyd i gyfranwyr risg Gweithredol adolygu'r systemau rheoli presennol o amgylch y risgiau hyn a thrafod sut y gellid eu cryfhau, ac y byddai hyn yn cael ei gwblhau i baratoi ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod y Tîm Busnes a Gweithredol ym mis Rhagfyr.</p> <p>Nododd y Pwyllgor y gellid ychwanegu sgoriau targed y risgiau i fonitro eu cynnydd.</p> <p>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Risgiau Strategol 1 a 2 wedi'u diweddarau gan gymryd sicrwydd ynghylch rheoli risgiau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.</p>	
KRIC 3.7.2/2024.12.05	Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
<p>Rhoddodd DG drosolwg o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel y'i hadolygwyd gan y Tîm Arwain. Yn dilyn ymlaen o drafodaethau yn y Tîm Arwain, roedd y diweddariad hwn yn cynnwys dwy risg ychwanegol ac uno tair risg yn ymwneud â gwiriadau DBS yn un risg. Nododd DG hefyd yr asesiad sydd wedi'i gynnwys i sut mae risgiau Corfforaethol yn cysylltu â risgiau strategol er mwyn gweld yn haws ble mae risgiau strategol yn cael eu heffeithio.</p> <p>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor gan gymryd sicrwydd ynghylch rheoli risgiau Corfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.</p>	
KRIC 3.8/2024.12.05	Crynodeb chwe-misol o Bolisiau Corfforaethol
<p>Rhoddodd LB drosolwg o statws polisïau a gweithdrefnau o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan gylch gorchwyl y pwyllgor. Nododd LB fod yr holl bolisiau yn gyfredol.</p> <p>Cymerodd y Pwyllgor sicrwydd ar flaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud er mwyn adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.</p>	
KRIC 4/2024.09.05	Eitemau i'w Cymeradwyo



KRIC 4.1/2024.09.05	Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (06 Mehefin 2024)
<p>Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 5 Medi fel cofnod cywir a chymeradwyo'r newidiadau a wnaed i'r log gweithredu.</p> <p>Darparodd IB ddiweddariadau ar lafar ar gamau gweithredu sydd ar y gweill ers y cyfarfod diwethaf:</p> <ul style="list-style-type: none">• KRIC 2024/14 (iteriad cyntaf y portffolio strategaeth Ddigidol a Data) – nododd IB fod y portffolio wedi'i ddiweddarau ar ôl cyfarfod yr Awdurdod Dylunio Digidol a Data ar 2 Rhagfyr, ac y byddai'n cael ei ddsbarthu i aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.• KIRC 2024/12 – Cyflwynodd IB drosolwg o'r gwaith a wnaed gyda'r fframwaith dangosyddion blaenoriaeth strategol, a oedd yn cynnwys y camau nesaf o weithio gydag arweinwyr blaenoriaeth i ddatblygu'r fframwaith ymhellach erbyn diwedd Chwefror 2025.	
KRIC 4.2/2024.09.05	Polisiau i'w cymeradwyo
Nid oedd unrhyw bolisiau i'w cymeradwyo yn y cyfarfod hwn.	
KRIC 5/2024.09.05	Eitemau i'w Nodi
KRIC 5.1/2024.09.05	Diweddariad ar Gynnydd y Cofnod Gweithredu Archwilio
Nid oedd unrhyw argymhellion Archwilio o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i adrodd arnynt.	
KRIC 5.2/2024.09.05	Adroddiadau Archwilio
Nid oedd unrhyw adroddiadau archwilio o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i'w trafod.	
KRIC 5.3/2024.09.05	Cynllun Gwaith y Pwyllgor
Nododd y Pwyllgor y cynllun gwaith, a'r angen i adolygu'r agenda ar gyfer mis Mawrth oherwydd y swmp a drefnwyd.	
KRIC 7/2024.09.05	Gweinyddiaeth i Gloi
<p>Unrhyw fater arall: Dim.</p> <p>Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella;</p> <p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 4 Mawrth 2025.</p>	
Daeth y cyfarfod i ben am 12:55	